



## CYFARCHIAD – GREETING.

Annwyl rieni/*Dear parents,*

Pleser yw eich cyfarch ar ddiwedd y gwyliau, gan fawr obeithio i bawb gael amser dymunol dros yr haf.

Rydym i gyd yn edrych ymlaen yn fawr at gael croesawu'r plant i'r ysgol eto yn y dyfodol agos. Fe'ch hatgoffir o'r drefn a ranwyd efo chi ym mis Gorffennaf, oedd yn eich hysbysu o bryd y bydd y plant yn dod i mewn yn ystod yr wythnos yn dechrau 07.09.20, gyda phawb yn ôl o 11.09.20 ymlaen.

**Dydd Llun, Medi 7fed a dydd Mawrth, Medi 8fed – Derbyn, Blwyddyn 2,4 a 6.**

**Dydd Mercher, Medi 9fed a dydd Iau, Medi 10fed – Derbyn, Blwyddyn 1,3 a 5.**

**Dydd Gwener, Medi 11eg ac ymlaen – Derbyn, Blwyddyn 1,2,3,4,5 a 6.**

Bydd yr holl fanylion a'r wybodaeth angenrheidiol ar gyfer yr ail agor yn cael eu hanfon atoch cyn gynted â phosib yr wythnos nesaf, unwaith y byddant wedi'u penderfynu'n derfynol.

Gan edrych ymlaen yn fawr at weld pawb yn fuan.

Cadwch yn ddiogel ac yn iach.

Cofion caredig atoch i gyd.

*It is a pleasure to greet you at the end of the holiday, hoping that everyone had a pleasant time over the summer.*

*We all look forward very much to welcoming the children to school again in the near future. You are reminded of the list shared with you in July giving information of the dates when pupils will be returning during the week beginning 07.09.20, with everyone back from 11.09.20 onwards.*

***Monday, September 7<sup>th</sup> and Tuesday, September 8<sup>th</sup> – Reception, Years 2,4 & 6.***

***Wednesday, September 9<sup>th</sup>& Thursday, September 10<sup>th</sup>. – Reception, Years 1,3 & 5***

***Friday, September 11<sup>th</sup>. and onwards – Reception, Years 1,2,3,4,5 & 6.***

*All the details and essential information in preparation for the re-opening, will be sent to you as soon as possible next week once they have been finalised.*

*Looking forward to seeing everyone very soon.*

*Keep safe and well.*

*Kindest regards to you all.*

Yn gywir/*Yours sincerely,*

L.M.Jones (Miss)

(Prifathrawes – Headmistress)